



**Sgrinio trawsffiniol a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion Rheoliad 32 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau EIA 2017)**

<b>Enw'r prosiect:</b>	Piblinell Carbon Deuocsid Hynet North West
<b>Cyfeiriad/Lleoliad:</b>	Mae'r Datblygiad Arfaethedig ar gyfer gosod seilwaith Dal a Storio Carbon, gan gynnwys piblinell carbon deuocsid (CO2) danddaearol sy'n ymestyn o Swydd Gaer yn Lloegr i Sir y Fflint yng Nghymru, a Gosodiadau Ar y Tir (AGI) a Gorsafoedd Falfiau Atal (BVS) cysylltiedig.
<b>Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio:</b>	EN070007
<b>Dyddiad(au) sgrinio:</b>	Ymarfer sgrinio cyntaf – 21 Rhagfyr 2021 yn dilyn cais yr Ymgeisydd am farn gwmpasu Ail ymarfer sgrinio – 23 Chwefror 2023 yn dilyn cyflwyno dogfennau'r cais

**SGRINIO TRAWSFFINIOL CYNTAF**

<b>Dogfen(nau) a ddefnyddiwyd ar gyfer sgrinio trawsffiniol:</b>	Adroddiad Cwmpasu Asesu Effeithiau Amgylcheddol ('yr Adroddiad Cwmpasu') – Dyddiedig mis Mehefin 2021 Adroddiad Cwmpasu Asesu Effeithiau Amgylcheddol – Atodiad A – Ffigurau Ategol (Rhan 1 o 3) – Dyddiedig mis Mai 2021 Adroddiad Cwmpasu Asesu Effeithiau Amgylcheddol – Atodiad A – Ffigurau Ategol (Rhan 2 o 3) - Dyddiedig mis Mai 2021 Adroddiad Cwmpasu Asesu Effeithiau Amgylcheddol – Atodiad A – Ffigurau Ategol (Rhan 3 o 3) - Dyddiedig mis Mai 2021 Adroddiad Cwmpasu Asesu Effeithiau Amgylcheddol – Atodiad B -Cofnod Cwmpasu Damweiniau Mawr a Thrychinebau - Dyddiedig mis Mai 2021
<b>Meini Prawf Sgrinio:</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth:</b>

## Nodweddion y Datblygiad

Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn rhan o ddatblygiad ehangach sy'n cynnwys gwaith cynhyrchu hydrogen, piblinellau dosbarthu hydrogen, cyfleuster storio hydrogen tanddaearol a chyfleuster dal a storio carbon alltraeth. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys adeiladu piblinellau newydd ar y tir ac addasu rhai presennol at ddiben gwahanol i gludo carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>) o'r gwaith cynhyrchu hydrogen a'r safle diwydiannol presennol i'r cyfleuster storio alltraeth. Dyma'r unig ran o'r datblygiad hwn a fyddai'n ddarostyngedig i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO); byddai elfennau eraill o'r datblygiad ehangach yn cael eu caniatáu o dan gyfundrefnau gwahanol.

Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bwriedir i'r gwaith canlynol gael ei wneud o dan y DCO ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig:

### Piblinell CO<sub>2</sub> AGI Grinsome Road i AGI Safle Alcohols

- Piblinell 5.5km (hyd at 20 modfedd o ddiamedr) a fydd yn cludo hyd at 2.5 miliwn o dunelli y flwyddyn (Mtpa) o CO<sub>2</sub> ar bwysedd o 35 barg o AGI Grinsome Road, sydd wedi'i leoli yn Ince, Swydd Gaer, i AGI Safle Alcohols, sydd wedi'i leoli o fewn safle Purfa Stanlow, i'r dwyrain o Borthladd Ellesmere, Swydd Gaer.

### Piblinell CO<sub>2</sub> AGI Safle Alcohols i AGI y Fflint

- Piblinell 32km (hyd at 36 modfedd o ddiamedr) a fydd yn cludo hyd at 10 Mtpa o CO<sub>2</sub> ar bwysedd o 35 barg o AGI Safle Alcohols, sydd wedi'i leoli ar dir i'r gogledd o Gei Connah yn Lloegr, i AGI y Fflint, sydd wedi'i leoli ar dir i'r de o'r Fflint yng Nghymru.

### AGI Grinsome Road

- AGI (arwynebedd oddeutu 64m x 34m) i'w leoli yn un o ddau leoliad posibl gerllaw Gwaith Gwrtaith CF yn Ince, Swydd Gaer. Mae AGI Grinsome Road yn cynnwys cyfleusterau lanswr Medrydd Archwilio Piblinell (PIG), cyfleusterau awyrellu CO<sub>2</sub>, cantel cysylltu â Gorsaf Ynni Biomas Protos, piblinell i Waith Gwrtaith CF a darpariaeth ar gyfer allyrwyd lleol yn y dyfodol.

### AGI Safle Alcohols

- AGI i'w leoli o fewn safle Purfa Stanlow yn Swydd Gaer, Lloegr. Mae AGI Safle Alcohols yn cynnwys cyfleusterau derbynnydd/ lansio PIG a chysylltiadau ag allyrwyd eraill (e.e. gweithfeydd hydrogen arfaethedig).

### AGI y Fflint

- AGI (arwynebedd oddeutu 99m x 72m) i'w leoli yn un o dri lleoliad posibl i'r de o'r Fflint yng Nghymru. Bydd AGI y Fflint yn cysylltu AGI Safle Alcohols â Piblinell CO<sub>2</sub> AGI y Fflint a'r piblinell bresennol rhwng AGI y Fflint a'r Parlwr Du, ac mae'n cynnwys cyfleusterau derbynnydd/lansio PIG a chyfleusterau awyrellu CO<sub>2</sub>.

	<p><u>Seilwaith Cysylltiedig</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai angen adeiladu seilwaith cysylltiedig ar gyfer yr AGIs, gan gynnwys falfiau, dulliau rheoli, goleuadau, darpariaethau parcio, trefniadau mynediad ac offeryniaeth.</li> </ul> <p><u>Gorsafoedd Falfiau Atal (BVSs)</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer o BVSs (arwynebedd oddeutu 35m x 25m) wedi'u lleoli ar hyd AGI Safle Alcohols i Biblinell CO<sub>2</sub> AGI y Fflint. Pedair BVS (arwynebedd oddeutu 35m x 25m) wedi'u lleoli ar hyd y biblinell nwy naturiol bresennol rhwng y Fflint a'r Parlwr Du.</li> </ul> <p><u>Gwaith Arall</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gosod Cabinetau Unioni Newidydd Amddiffyn Cathodig (CP) ('y system CP'), gan gynnwys ceblau/gwelyau daearu o dan y ddaear a chabinetau unioni ar y tir, ar hyd y Datblygiad Arfaethedig.</li> <li>• Gwaith ategol, gan gynnwys cyfadeiladau adeiladu dros dro (arwynebedd oddeutu 47m x 47m), ardaloedd gosod/storio dros dro a llwybrau mynediad/cludo dros dro sy'n cysylltu â'r Datblygiad Arfaethedig o'r rhwydwaith ffyrdd lleol.</li> </ul> <p>I weithredu'r Datblygiad Arfaethedig, bydd angen addasu piblinell nwy bresennol rhwng AGI y Fflint a'r Parlwr Du at ddiben gwahanol a gwneud newidiadau iddi. Bydd gwaith ar y biblinell bresennol yn cael ei wneud trwy geisiadau cynllunio ar wahân o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac nid yw wedi'i gynnwys yn y DCO ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, heblaw am osod y BVSs.</p> <p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei adeiladu fesul cam dros gyfnod o 18 mis. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan, ar ôl yr oes weithredol 40 mlynedd, y byddai'r biblinell CO<sub>2</sub> a'r BVSs yn cael eu datgomisiynu (gadael yn eu lle) ac y byddai'r AGI yn cael ei ddatgymalu.</p> <p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y byddai technegau croesi di-ffos yn cael eu defnyddio i groesi prif ffyrdd ac is-ffyrdd, rheilffyrdd a chyrsgiau dŵr mawr. Ni phenderfynwyd eto ar y dechneg groesi ddi-ffos benodol i'w defnyddio yn ystod adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig.</p>
<p><b>Lleoliad y Datblygiad (gan gynnwys defnydd presennol) a'r ardal ddaearyddol</b></p>	<p>Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ymestyn i'r de-ddwyrain o Swydd Gaer yn Lloegr, gan fynd heibio i'r gogledd o Gaer ac i'r de o Gei Connah cyn parhau i'r gogledd-ddwyrain tua'r Fflint yng Nghymru. Mae'n mynd trwy dir amaeth yn bennaf ac yn croesi nifer o gyrsgiau dŵr, prif ffyrdd/is-ffyrdd a chroesfannau rheilffyrdd.</p> <p>Nid yw union lleoliad a dyluniad pob elfen o'r Datblygiad Arfaethedig wedi cael eu diffinio ar yr adeg hon. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan bod coridor 100m o led wedi cael ei fabwysiadu sy'n cynrychioli maint mwyaf y</p>

	<p>Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys gwaith adeiladu dros dro.</p> <p>Mae'r ffigurau yn Atodiad A (Rhan 1 o 3) yr Adroddiad Cwmpasu yn dangos ardaloedd dangosol o fewn safle'r cais ar gyfer pob elfen o'r Datblygiad Arfaethedig.</p> <p>Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi unrhyw wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), na nodweddion sy'n dod o fewn awdurdodaeth un o wladwriaethau'r AEE, y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt. Nid yw'r pellter rhwng y Datblygiad Arfaethedig a gwladwriaethau'r AEE wedi cael ei nodi'n benodol yn yr Adroddiad Cwmpasu.</p>
<p><b>Pwysigrwydd Amgylcheddol</b></p>	<p><u>Bioamrywiaeth</u></p> <p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu naw safle Rhwydwaith Cenedlaethol sydd wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth natur o fewn 10km o'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, sydd wedi'i dynodi ar gyfer cynefinoedd Atodiad I a rhywogaethau Atodiad II, gan gynnwys llysywod pendwll, bawd y melinydd, a dyfrgwn, y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ei chroesi.</li> <li>• ACA Aber Afon Dyfrdwy, sydd wedi'i chysylltu'n hydrolegol ag ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid ac wedi'i dynodi ar gyfer cynefinoedd Atodiad I a rhywogaethau Atodiad II, gan gynnwys llysywod pendwll.</li> <li>• Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Aber Afon Dyfrdwy, sydd wedi'i chysylltu'n hydrolegol ag ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid ac wedi'i dynodi ar gyfer rhywogaethau Atodiad I, rhywogaethau mudol, a chrynodiad o adar dŵr sy'n bwysig yn rhyngwladol.</li> <li>• Safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, sydd wedi'i chysylltu'n hydrolegol ag ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid ac wedi'i dynodi o dan feini prawf 1, 2, 5 a 6 Ramsar (rhywogaethau/ poblogaethau adar sy'n digwydd ar lefelau sy'n bwysig yn rhyngwladol).</li> <li>• ACA Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle, sydd wedi'i lleoli tua 50m i'r de o'r Datblygiad Arfaethedig ac wedi'i dynodi ar gyfer cynefinoedd Atodiad I a rhywogaethau Atodiad II, gan gynnwys madfallod dŵr cribog.</li> <li>• Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Mynydd y Fflint, y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn ei groesi ac sydd wedi'i ddynodi ar gyfer glaswelltir niwtral heb ei wella, coetir llydanddail lled-naturiol a chymunedau trawsnewid.</li> <li>• SoDdGA Aber Afon Dyfrdwy, sydd wedi'i leoli 700m i'r gogledd o'r Datblygiad Arfaethedig ac wedi'i ddynodi ar gyfer poblogaethau adar a chynefinoedd morydol sy'n bwysig yn rhyngwladol.</li> <li>• SoDdGA Afon Dyfrdwy, y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ei groesi ac sydd wedi'i ddynodi ar gyfer mathau o gynefinoedd dyfrol a thrawsnewid ac ar gyfer poblogaethau</li> </ul>

	<p>dyfrgwn, eogiaid, llysywod pendwll y nant, llysywod pendwll yr afon, llysywod pendwll y môr ac infertebratau dyfrol.</p> <p><u>Agweddau Amgylcheddol</u></p> <p>Eraill Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi pum ased treftadaeth dynodedig o fewn ffin y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys y Safle Amffosog, y Pwll Pysgod a'r Sianel Gysylltu a Heneb Gofrestredig Elton.</p> <p>Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i leoli'n bennaf o fewn Parth Llifogydd 2 (Lloegr) a Pharth C2 (Cymru), ond mae AGI Grinsome Road wedi'i leoli ym Mharth Llifogydd 3. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cydreddeg â 14 corff dŵr wyneb y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) a phedwar corff dŵr daear yr WFD, neu'n union i lawr yr afon ohonynt.</p> <p>Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cydreddeg ag Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) Thornton le Moors ac wedi'i leoli o fewn 500m o bum Ardal sy'n Bwysig o ran Sŵn (NIA) a saith Ardal Flaenoriaeth Cynllun Gweithredu Sŵn (NAPPA).</p> <p>Yn ogystal, mae ffin y Datblygiad Arfaethedig yn cydreddeg â datblygiad preswyl, asedau cymunedol a mannau gwyrdd, dynodiadau tir cyflogaeth, daliadau tir amaeth, nifer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru, a llawer o safleoedd tirlenwi hanesyddol, neu'n agos iddynt.</p>
<p><b>Effeithiau a chlodwyr posibl</b></p>	<p>Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi unrhyw lwybr posibl ar gyfer effeithiau ar Wladwriaethau'r AEE. Mae'r Arolygiaeth yn nodi'r posibilrwydd ar gyfer effeithiau ar rywogaethau adar a physgod mudol sy'n gysylltiedig â'r amryw safleoedd dynodedig yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig, ond nid oes tystiolaeth, pe byddai effeithiau o'r fath yn digwydd, y byddent yn cael effaith ar boblogaethau sy'n gysylltiedig â gwladwriaethau AEE penodol.</p>
<p><b>Hyd a lled</b></p>	<p>Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu wedi nodi unrhyw effeithiau a fyddai'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd yn un o Wladwriaethau'r AEE.</p>
<p><b>Maint</b></p>	
<p><b>Tebygolrwydd</b></p>	
<p><b>Hyd</b></p>	
<p><b>Amllder</b></p>	
<p><b>Gwrthdroadwyedd</b></p>	
<p><b>Effeithiau cronol</b></p>	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd yr asesiad o effeithiau cronol yn ystyried datblygiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt, gan gynnwys prosiectau sy'n ffurfio'r cynllun ehangach (gweler Adran 2 yr Adroddiad Cwmpasu). Bydd yr asesiad o effeithiau cronol yn cael ei gyflwyno yn y datganiad amgylcheddol. Bydd yr Arolygiaeth yn adolygu'r</p>

	posibilrwydd o effeithiau cronol pan fydd gwybodaeth ychwanegol ar gael.
<p><b>Sgrinio trawsffiniol a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol</b></p> <p>O dan Reoliad 32 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau EIA 2017) ac ar sail y wybodaeth gyfredol sydd ar gael gan yr Ymgeisydd, mae'r Arolygiaeth o'r farn bod y Datblygiad Arfaethedig <b>yn annhebygol</b> o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd yn un o Wladwriaethau'r AEE.</p> <p>Wrth ddod i'r farn hon, mae'r Arolygiaeth wedi defnyddio'r dull rhagofalus (fel yr esbonnir yn ei Nodyn Cyngor Deuddeg: Effeithiau Trawsffiniol) ac wedi ystyried y wybodaeth a gyflenwyd ar hyn o bryd gan yr Ymgeisydd.</p> <p><b>Camau gweithredu:</b></p> <p>Nid oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol ar yr adeg hon.</p> <p><b>Dyddiad: 21 Rhagfyr 2021</b></p>	

<b>AIL YMARFER SGRINIO TRAWSFFINIOL</b>	
<b>Dogfen(nau) a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymarfer sgrinio trawsffiniol:</b>	Datganiad Amgylcheddol (ES) (Cyfrolau II a III) – Dyddiedig mis Medi 2022 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Gwybodaeth i Lywio Asesiad Priodol ('yr Adroddiad HRA') – Dyddiedig mis Medi 2022
<b>Dyddiad y cynhaliwyd yr ymarfer sgrinio:</b>	Ailsgriniwyd ar 23 Chwefror 2023 ar ôl derbyn dogfennau'r cais
<p><b>Ail ymarfer sgrinio trawsffiniol a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol</b></p> <p>Yn dilyn cyflwyno'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO), a oedd yn cynnwys yr ES a'r Adroddiad HRA, mae'r Arolygiaeth wedi ailystyried y penderfyniad sgrinio trawsffiniol a wnaed ar 21 Rhagfyr 2021.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth wedi nodi'r materion canlynol sy'n wahanol i'r rhai a ystyriwyd ar adeg y penderfyniad sgrinio trawsffiniol blaenorol:</p> <p><b><u>Newid i'r disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig</u></b></p> <p>Amlinellir y disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig ym mhenodau canlynol yr ES Cyfrol II:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ES Pennod 2 Y Prosiect.</li> <li>• ES Pennod 3 Disgrifiad o Ddatblygiad Arfaethedig y DCO.</li> <li>• ES Pennod 4 Ystyried Dewisiadau Amgen.</li> </ul> <p>Darparwyd rhai addasiadau a manylion dylunio ychwanegol yn rhan o ddogfennau'r cais, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mireinio opsiynau llwybr ar gyfer y biblinell CO<sub>2</sub> newydd sydd i'w hadeiladu, gyda gostyngiad i hyd a lled y ffin/faint o dir a gymerir yn y DCO o ganlyniad;</li> <li>• gofyniad ar gyfer oddeutu 400m o bibell gysylltu danddaear ar y tir, â diamedr 24 modfedd a chapasiti o hyd at 4.5 MtCO<sub>2</sub> y flwyddyn ar bwysedd o oddeutu 33 barg, rhwng Gosodiad Uwchben y Ddaear (AGI) y Fflint a phiblinell Cysylltiad y Fflint;</li> <li>• mireinio lleoliad a dimensiynau mwyaf rhai Gosodiadau Uwchben y Ddaear (AGIs) a Gorsafoedd Falfiau Bloc (BVSs);</li> </ul>	

- ychwanegu AGI yn Northop Hall, gan gynyddu nifer yr AGIs a gynigir o dri i bedwar; a,
- chadarnhau y cynigir chwe BVS ar draws hyd cyfan y Datblygiad Arfaethedig, a bod angen un BVS yn llai ar y llwybr rhwng Cysylltiad y Fflint â Phiblinell Terfynell y Parlwr Du (PoA).

### **Effeithiau cronol**

Nid oedd yr Ymgeisydd wedi cynnal ei asesiad o effeithiau cronol ac ar y cyd ar adeg penderfyniad sgrinio trawsffiniol blaenorol yr Arolygiaeth ym mis Rhagfyr 2021.

Mae ES Cyfrol II, Pennod 19 Effeithiau Cyfunol a Chronol yn disgrifio dull yr Ymgeisydd o gynnal ei asesiad cronol, a'i ganlyniadau. Cyflwynir y datblygiadau a ystyriwyd yn yr asesiad yn ES Cyfrol III, Atodiad 19.1 Asesiad o Effeithiau Rhyng-Brosiect, Tabl 2 Rhestr Hir o Ddatblygiadau Eraill a Thabl 3 Rhestr Fer o Ddatblygiadau Eraill. Nid yw'r Ymgeisydd yn nodi unrhyw effeithiau cronol arwyddocaol ar yr amgylchedd yng ngwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

Mae Atodiad B yr Adroddiad HRA yn rhestru'r cynlluniau a'r prosiectau a ystyriwyd yn rhan o asesiad ar y cyd HRA yr Ymgeisydd. Cyflwynir canlyniadau'r asesiad yn Adrannau 6.4 a 7.8 yr Adroddiad HRA. Nid yw'r Ymgeisydd yn nodi unrhyw safleoedd Ewropeaidd y tu allan i'r Deyrnas Unedig lle y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol, naill ai'n unigol neu ar y cyd.

### **Llwybrau ar gyfer effeithiau ar Wladwriaeth/Gwladwriaethau'r AEE**

Nid yw asesiad yr Ymgeisydd wedi amlygu unrhyw lwybrau newydd ar gyfer effeithiau ar Wladwriaeth/Gwladwriaethau'r AEE. Ni ragwelir y bydd effeithiau ar rywogaethau mudol a/neu safleoedd Ewropeaidd yn arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol ar boblogaethau gwladwriaethau'r AEE. Felly, ystyrir bod effeithiau trawsffiniol arwyddocaol yn annhebygol.

O dan Reoliad 32 Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2017 ac ar sail y wybodaeth gyfredol sydd ar gael gan yr Ymgeisydd, nid oes newid i'r casgliad blaenorol, ac mae'r Arolygiaeth yn parhau i fod o'r farn **nad yw'r** Datblygiad Arfaethedig **yn debygol** o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd mewn Gwladwriaeth AEE.

Wrth ddod i'r farn hon, mae'r Arolygiaeth wedi defnyddio'r dull rhagofalus (fel yr esbonnir yn ei Nodyn Cyngor Deuddeg: Effeithiau Trawsffiniol), ac wedi ystyried y wybodaeth a gyflenwyd gan yr Ymgeisydd ar hyn o bryd.

### **Cam gweithredu:**

Nid oes angen unrhyw gamau ychwanegol ar yr adeg hon.

Ni nodwyd unrhyw Wladwriaethau'r AEE y mae'n debygol y bydd effeithiau arwyddocaol ar eu hamgylchedd.

**Dyddiad:** 23 Chwefror 2023.

**Sylwer:** Mae dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliad 32 Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2017 yn parhau drwy gydol proses y cais.

### **Sylwch:**

Mae'r Arolygiaeth yn sgrinio materion trawsffiniol ar sail yr ystyriaethau perthnasol a nodir yn yr Atodiad i'w Nodyn Cyngor Deuddeg, sydd ar gael ar ein gwefan yn

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/>

<b>Transboundary screening undertaken by the Planning Inspectorate (the Inspectorate) on behalf of the Secretary of State (SoS) for the purposes of Regulation 32 of The Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2017 (the 2017 EIA Regulations)</b>	
<b>Project name:</b>	Hynet North West Carbon Dioxide Pipeline
<b>Address/Location:</b>	The Proposed Development is for the installation of Carbon Capture and Storage (CCS) infrastructure, including an underground carbon dioxide (CO <sub>2</sub> ) pipeline extending from Cheshire, England to Flintshire, Wales and associated Above Ground Installations (AGI) and Block Valve Stations (BVS).
<b>Planning Inspectorate Ref:</b>	EN070007
<b>Date(s) screening undertaken:</b>	First screening – 21 December 2021 following the Applicant’s request for a scoping opinion Second screening – 23 February 2023 following submission of the application documents

<b>FIRST TRANSBOUNDARY SCREENING</b>	
<b>Document(s) used for transboundary Screening:</b>	<p>Environmental Impact Assessment Scoping Report (‘the Scoping Report’) - Dated June 2021</p> <p>Environmental Impact Assessment Scoping Report – Appendix A - Supporting Figures (Part 1 of 3) - Dated May 2021</p> <p>Environmental Impact Assessment Scoping Report – Appendix A - Supporting Figures (Part 2 of 3) - Dated May 2021</p> <p>Environmental Impact Assessment Scoping Report – Appendix A - Supporting Figures (Part 3 of 3) - Dated May 2021</p> <p>Environmental Impact Assessment Scoping Report – Appendix B - Major Accidents and Disasters Scoping Record - Dated May 2021</p>
<b>Screening Criteria:</b>	<b>The Inspectorate’s Comments:</b>
<b>Characteristics of the Development</b>	The Proposed Development is part of a wider development comprising a hydrogen production plant, hydrogen distribution pipelines, underground hydrogen storage and offshore carbon capture storage. The Proposed Development consists of new build and re-purposed onshore pipelines to transport carbon dioxide (CO <sub>2</sub> ) from the hydrogen production plan and existing industrial premises to the offshore storage. This is the only part of this development which would be covered under the Development Consent Order (DCO); other elements of the wider development would be consented under different regimes.



The Scoping Report states the following works are to be delivered under the DCO for the Proposed Development:

#### Grinsome Road AGI to Alcohols Site AGI CO<sub>2</sub> Pipeline

- 5.5km pipeline (up to 20 inches in diameter) transporting up to 2.5 million tonnes per annum (Mtpa) of CO<sub>2</sub> at a pressure of 35 barg from Grinsome Road AGI located in Ince, Cheshire to Alcohols Site AGI located within the Stanlow Refinery site, east of Ellesmere Port, Cheshire.

#### Alcohols Site AGI to Flint AGI CO<sub>2</sub> Pipeline

- 32km pipeline (up to 36 inches in diameter) transporting up to 10 Mtpa of CO<sub>2</sub> at a pressure of 35 barg from the Alcohols Site AGI located on land north of Connah's Quay, England to Flint AGI located on land south of Flint, Wales.

#### Grinsome Road AGI

- AGI (area approximately 64m x 34m) to be sited at one of two possible locations adjacent to the CF Fertiliser Plant, Ince, Cheshire. Grinsome Road AGI comprises of Pipeline Inspection Gauge (PIG) launcher facilities, CO<sub>2</sub> vent facilities, a connection flange into the Protos Biomass Power Plant, a pipeline into the CF Fertiliser Plant and provision for future local emitters.

#### Alcohols Site AGI

- AGI to be sited within the Stanlow Refinery site, Cheshire, England. Alcohols Site AGI comprises of PIG receiver/launch facilities and connections to other emitters (eg proposed hydrogen plants).

#### Flint AGI

- AGI (area approximately 99m x 72m) to be sited at one of three possible locations south of Flint, Wales. The Flint AGI will connect the Alcohols Site AGI to Flint AGI CO<sub>2</sub> Pipeline to the existing pipeline between Flint AGI and the Point of Ayre (PoA) and comprises of PIG receiver/launch facilities and CO<sub>2</sub> vent facilities.

#### Associated Infrastructure

- AGIs would require the construction of associated infrastructure, including valves, control mechanisms, lighting, parking provisions, access arrangements and instrumentation.

#### Other Works

- Installation of Cathodic Protection (CP) Transformer Rectifier Cabinets ('the CP system'), including below ground cabling/ground beds and above ground rectifier cabinets, along the length of the Proposed Development.
- Ancillary works, including temporary construction compounds (area approximately 47m x 47m), temporary laydown/storage areas and temporary access/haul routes

	<p>connecting to the Proposed Development from the local road network.</p> <p>Operation of the Proposed Development requires repurposing and modification of an existing gas pipeline between Flint AGI and the PoA. Works to the existing pipeline are to be delivered via separate planning applications under the Town and Country Planning Act (TCPA 1990) and are not included in the DCO for the Proposed Development, except for the installation of the BVSs.</p> <p>The Scoping Report states that construction of the Proposed Development will be phased over an 18-month period. The Scoping Report states that following the 40-year operational lifetime the CO<sub>2</sub> pipeline and BVSs would be decommissioned (left in situ) and the AGI would be dismantled.</p> <p>The Scoping Report states that trenchless crossing techniques would be used to cross major and minor roads, railways and major watercourses. The specific trenchless crossing technique to be used during construction of the Proposed Development has not been determined at this stage.</p>
<p><b>Location of Development (including existing use) and Geographical area</b></p>	<p>The Proposed Development extends south west from Cheshire, England passing north of Chester and south of Connah’s Quay before continuing north east towards Flint, Wales. It passes through predominantly agricultural land and crosses multiple watercourses, minor/major roads and rail crossings.</p> <p>The precise location and design of each element of the Proposed Development has not been defined at this stage. However, the Scoping Report states that a 100m wide corridor has been adopted which represents the maximum extent of the Proposed Development, including temporary construction works.</p> <p>Figures included in Appendix A (Part 1 of 3) of the Scoping Report identify indicative areas within the application site for each element of the Proposed Development.</p> <p>The Scoping Report does not identify any European Economic Area (EEA) states, or features under the jurisdiction of an EEA state, that may be affected by the Proposed Development. The distance between the Proposed Development and EEA states has not been specified in the Scoping Report.</p>
<p><b>Environmental Importance</b></p>	<p><u>Biodiversity</u></p> <p>The Scoping Report identifies nine National Network sites designated for nature conservation within 10km of the Proposed Development. These include:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• River Dee and Bala Lake/Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid Special Area of Conservation (SAC) which is designated for Annex I habitats and Annex II species, including lamprey, bullhead, and otter, is crossed by the Proposed Development.</li> <li>• Dee Estuary/Aber Dyfrdwy SAC which is hydrologically connected to the River Dee and Bala Lake SAC and</li> </ul>

designated for Annex I habitats and Annex II species, including lamprey.

- Dee Estuary Special Protection Area (SPA) which is hydrologically connected to the River Dee and Bala Lake SAC and designated for Annex I species, migratory species, and an assemblage of waterbirds of international importance.
- Dee Estuary Ramsar site which is hydrologically connected to the River Dee and Bala Lake SAC and designated under Ramsar criteria 1, 2, 5 and 6 (bird species/populations occurring at levels of international importance).
- Deeside and Buckley Newt Sites SAC located approximately 50m south of the Proposed Development and designated for Annex I habitats and Annex II species, including great crested newt.
- Flint Mountain Site of Special Scientific Interest (SSSI) which would be crossed by the Proposed Development and is designated for unimproved neutral grassland, semi-natural broadleaved woodland and transition communities.
- Dee Estuary/Aber Afon Dyfrdwy SSSI located 700m north of the Proposed Development and designated for internationally important bird populations and estuarine habitats.
- River Dee/Afon Dyfrdwy SSSI which is crossed by the Proposed Development and designated for aquatic and transition habitat types and for populations of otter, salmon, brook lamprey, river lamprey, sea lamprey and aquatic invertebrates.

#### Other Environmental Aspects

The Scoping Report identifies five designated heritage assets within the Proposed Development boundary, including the Moated Site, Fishpond and Connecting Channel and Elton Scheduled Monument (SM).

The Proposed Development is primarily located within Flood Zone 2 (England) and Zone C2 (Wales), however Grinsome Road AGI is located in Flood Zone 3. The Proposed Development coincides with or is immediately downstream of 14 Water Framework Directive (WFD) surface water bodies and four WFD ground water bodies.

The Proposed Development coincides with Thornton le Moors Air Quality Management Area (AQMA) and is located within 500m of five Noise Important Areas (NIAs) and seven Noise Action Plan Priority Areas (NAPPAs).

In addition, the Proposed Development boundary coincides with, or is in close proximity to residential development, community assets and greenspace, employment land designations, agricultural land holdings, numerous Public Rights of Way (PRoW), including the Wales Coastal Path and multiple historic landfill sites.

<b>Potential impacts and Carrier</b>	The Scoping Report does not identify any potential pathway for effects on EEA States. The Inspectorate notes the potential for effects on migratory bird and fish species associated with the various designated sites in the vicinity of the Proposed Development but there is no evidence that should such effects occur, that populations associated with specific EEA states would be affected.
<b>Extent</b>	The Scoping Report has not identified any impacts which would be likely to significantly affect the environment in an EEA State.
<b>Magnitude</b>	
<b>Probability</b>	
<b>Duration</b>	
<b>Frequency</b>	
<b>Reversibility</b>	
<b>Cumulative impacts</b>	The Scoping Report states that the assessment of cumulative effects will consider other committed developments, including projects that form the wider scheme (see Section 2 of the Scoping Report). The assessment of cumulative effects will be presented in the environmental statement. The Inspectorate will review the potential for cumulative effects when further information becomes available.
<p><b><u>Transboundary screening undertaken by the Inspectorate on behalf of the SoS</u></b></p> <p>Under Regulation 32 of The Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2017 (the 2017 EIA Regulations) and on the basis of the current information available from the Applicant, the Inspectorate is of the view that the Proposed Development <b>is not likely</b> to have a significant effect on the environment in an EEA State.</p> <p>In reaching this view the Inspectorate has applied the precautionary approach (as explained in its Advice Note Twelve: Transboundary Impacts), and taken into account the information currently supplied by the Applicant.</p> <p><b>Action:</b></p> <p>No further action required at this stage.</p> <p><b>Date: 21 December 2021</b></p> <p><b>Note:</b> The SoS' duty under Regulation 32 of the 2017 EIA Regulations continues throughout the application process.</p>	

## SECOND TRANSBOUNDARY SCREENING

**Document(s) used for transboundary Screening:**

Environmental Statement (ES) (Volumes II and III) – Dated September 2022  
Habitats Regulations Assessment – Information to Inform an Appropriate Assessment ('the HRA Report') – Dated September 2022

**Date screening undertaken:**

Re-screened on 23 February 2023 following receipt of application documents

### **Transboundary re-screening undertaken by the Inspectorate on behalf of the SoS**

Following submission of the DCO application which included the ES and the HRA Report, the Inspectorate has reconsidered the transboundary screening decision made on 21 December 2021.

The Inspectorate has identified the following matters that differ from those considered at the time of the previous transboundary screening decision:

#### **Change in the description of the Proposed Development**

The description of the Proposed Development is set out in the following chapters of ES Volume II:

- ES Chapter 2 The Project.
- ES Chapter 3 Description of the DCO Proposed Development.
- ES Chapter 4 Consideration of Alternatives.

There have been some modifications and further design details provided as part of the application documents, including:

- refinement of pipeline route options for the newbuild CO<sub>2</sub> pipeline, with a consequent reduction in the extent of DCO boundary/ land take;
- requirement for approximately 400m of underground onshore tie-in pipe, with a 24 inch diameter and capacity of up to 4.5 MtCO<sub>2</sub> per year at a pressure of approximately 33 barg, between the Flint AGI and Flint Connection pipeline;
- refinement of the location and maximum dimensions of some AGIs and BVSs;
- addition of an AGI at Northop Hall, taking the total number of AGIs proposed from three to four; and,
- confirmation that six BVS are proposed along the full length of the Proposed Development, with one fewer BVS required on the route between the Flint Connection to the PoA Terminal Pipeline.

#### **Cumulative effects**

The Applicant had not undertaken their cumulative and in-combination effects' assessment at the time of the Inspectorate's previous transboundary screening decision in December 2021.

ES Volume II, Chapter 19 Combined and Cumulative Effects describes the Applicant's approach to, and the outcomes of, their cumulative assessment. The developments considered in the assessment are presented in ES Volume III, Appendix 19.1 Inter-Project Effects Assessment, Table 2 Long List of Other Developments and Table 3 Short List of Other Developments. No significant cumulative effects to EEA states are identified by the Applicant.

Appendix B of the HRA Report lists the plans and projects that were considered as part of the Applicant's HRA in-combination assessment. The outcomes of the assessment are

presented at Sections 6.4 and 7.8 of the HRA Report. The Applicant does not identify any European sites outside of the UK where the Proposed Development would result in likely significant effects, either alone or in-combination.

**Pathways for effects to EEA State(s)**

The Applicant's assessment has not identified any new pathways for effects to EEA State(s). Effects on migratory species and/ or European sites are not predicted to lead to likely significant effects on EEA state populations. Significant transboundary effects are therefore considered to be unlikely.

Under Regulation 32 of the 2017 EIA Regulations and on the basis of the current information available from the Applicant, there is no change to the previous conclusion, and the Inspectorate remains of the view that the Proposed Development **is not likely** to have a significant effect on the environment in an EEA State.

In reaching this view the Inspectorate has applied the precautionary approach (as explained in its Advice Note twelve: Transboundary Impacts); and taken into account the information currently supplied by the Applicant.

**Action:**

No further action required at this stage.

No EEA States have been identified as being likely to have significant effects on their environment.

**Date:** 23 February 2023

**Note:** The SoS' duty under Regulation 32 of the 2017 EIA Regulations continues throughout the application process.

**Note:**

The Inspectorate's screening of transboundary issues is based on the relevant considerations specified in the Annex to its Advice Note Twelve, available on our website at <http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/>